O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 1 (Cy. 1)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Ionawr 2013* |
| *Yn dod i rym* | *8 Ionawr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984)**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Ionawr 2013, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:-

(i) ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(ii) ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnod o ddyddiadau cau, fel y pennir yn Atodlen 5, sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 8 Ionawr ac yn dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(iii) ystyr “y darn(au) o'r gefnffordd” (“*the length(s) of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 4 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar hyd y gerbytffordd tua'r dwyrain na thua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** (1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 11, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

(i) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r dwyrain;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r dwyrain, drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 11, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

(i) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r gorllewin;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r dwyrain, drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn

gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 3.20 o fetrau neu ragor fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n lletach na 3.20 metr, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

**Atal**

**9.** Drwy hyn, atelir darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Llansanffraid Glan Conwy i Forfa Conwy) 1990(**3**) mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**10.** Drwy hyn, atelir darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Bae Colwyn i Lansanffraid Glan Conwy) 1985**(4)** mewn perthynas â'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**11.** Drwy hyn, atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glan Conwy - Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011**(5)** mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**12.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**13.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 2 Ionawr 2013

***R Morgan***

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1990/1586
**(4)** O.S. 1985/824
**(5)** O.S. 2011/2330 (Cy.245)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfynau'r gwrthlif

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 105 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel Conwy ac sy'n ymestyn tua'r gorllewin hyd at bwynt 110 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy.

### ATODLEN 2
### Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

1. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 45 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy a phwynt 105 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

2. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 60 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy a phwynt 110 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

### ATODLEN 3
### Gwahardd cerbydau a therfyn cyflymder 40 mya

1. Y darn hwnnw o brif gerbytffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 500 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 19, cylchfan Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy, ac sy'n ymestyn tua'r gorllewin hyd at bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain, gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol sydd yn Atodlen 2.

2. Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 19, Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy.

3. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

4. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, Cyfnewidfa Morfa Conwy.

## ATODLEN 4
## Cyfyngu ar Led Cerbydau

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin, hyd at ben pellaf y trwyniad lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau’r trwyniad lle y mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymrannu oddi wrth brif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno, hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18.

## ATODLEN 5

18:00 8 Ionawr 2013 – 07:30 9 Ionawr 2013
18:00 9 Ionawr 2013 – 07:30 10 Ionawr 2013
00:00 12 Ionawr 2013 – 23:59 03 Chwefror 2013
18:00 9 Ebrill 2013 – 07:30 10 Ebrill 2013
18:00 10 Ebrill 2013 – 07:30 11 Ebrill 2013
18:00 4 Mehefin 2013 – 07:30 5 Mehefin 2013
18:00 5 Mehefin 2013 – 07:30 6 Mehefin 2013
18:00 2 Gorffennaf 2013 – 07:30 3 Gorffennaf 2013
18:00 3 Gorffennaf 2013 – 07:30 4 Gorffennaf 2013
18:00 3 Medi 2013 – 07:30 4 Medi 2013
18:00 4 Medi 2013 – 07:30 5 Medi 2013
18:00 1 Hydref 2013 – 07:30 2 Hydref 2013
18:00 2 Hydref 2013 – 07:30 3 Hydref 2013
18:00 19 Tachwedd 2013 – 07:30 20 Tachwedd 2013
18:00 20 Tachwedd 2013 – 07:30 21 Tachwedd 2013

## ATODLEN 6

Y darn hwnnw o'r gilfan ar y gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 1579 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt pont droed Hen Wrych hyd at bwynt 1768 o fetrau i'r gorllewin o'r pwynt hwnnw.